

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Marian W. Davies (Llansannan) ym marwolaeth ei thad, Gwynfor Owen. Cofiw'n am weddill y teulu hefyd yn eu profedigaeth a chyflwynwn hwy oll yn dyner i ofal Duw.
- Cofiw'n hefyd am y cleifion yn ein plith. Yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Philip Owen (Llanefydd), Haf Williams, John G. Jones a Megan Evans (Llansannan); mae Ceinlys Jones (Llansannan) a Dilys Vaughan (Saron) yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari, fel ag y mae Gwyneth Rawson (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno. Diolchwn amdanynt oll a chyflwynwn hwy i'r Arglwydd gan ofyn Iddo gysgodi drostynt a gwylio dros eu hanwyliaid yr un modd. Bu Gwyneth Wynne (Henllan) yn yr ysbyty am ychydig ddyddiau hefyd. Yr ydym yn ei chodi hithau hefyd, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, yn ein gweddïau. Hyderwn y bydd y dyddiau nesaf yn rhai lle y bydd pob un ohonynt yn cryfhau ac y byddant yn adnabod agosrwydd yr Arglwydd.
- Cofiw'n hefyd y rhai o'n plith sydd wedi bod trwy brofiadau digon anodd yn ddiweddar a gweddiwn y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.
- Roedd Cymdeithasfa'r Gogledd yn cyfarfod yng Nghapel Bethel, Heathfield Road, Lerpwl yr wythnos ddiwethaf a bu iddynt gydnabod cyfraniad gwerthfawr nifer o flaenoriaid ac yn eu plith, John G. Jones (Llansannan) sydd wedi rhoi 50 mlynedd o wasanaeth yn Eglwys Unedig Llansannan ac yn yr Henaduriaeth. Arbennig iawn yn wir! Diolchwn ninnau'n gywir iawn iddo am ei wasanaeth ar hyd y blynyddoedd ac estynnwn ein llongyfarchion a'n dymuniadau gorau iddo.

I ddod

- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan dydd Gwener, Mai 11eg. Pwyllgor Gwaith am 3.00, Gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, a Chyfarfod Cyhoeddus am 6.00 i werthfawrogi gwaith cwrs plant ac oedolion yr Ysgol Sul.
- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 10fed yng Nghapel Llandegla am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2017-18. Arweinydd: Dafydd Watson, Mynydd Isa. Croeso i bawb.
- **'DISGLAIR'** – Penwythnos i ferched o bob oed yn y Bala ar Mehefin 15fed-16eg. Siaradwyr: Sian Wyn Rees, Cath Woolridge ac Ali Roberts. Cofrestrwch ar-lein ar wefan colegybala.org neu cysylltwch â'r Coleg i dderbyn copi papur o'r ffurflen: 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk.
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
 - ⇒ **Cwrs Ieuenctid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 30ain – Awst 3ydd
 - ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 13eg – 16eg
 - ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 18fed – 23ain



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 29^{ain} Ebrill 2018

Darlleniad y Dydd

Ioan 20:30-31

(BCND tud.127 / BCN tud.116)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch i oedfaon Sul olaf mis Ebrill. Cofiwch na fydd Oedfa'r Fro heno yn Llansannan ond yn hytrach yng Nghefn Berain, a bydd croeso i unrhyw un sydd am ymuno hefo ni. Lle bynnag y byddwn yn addoli Duw heddiw, gweddiwn am arweiniad yr Ysbryd Glân i'n tywys at Grist fel y gallwn fel y salmydd ymbil – 'Arglwydd, adfywia fi yn ôl dy air.' (Salm 119:107)

Un o'r cwestiynau yr ydw i'n cofio eu gofyn yn aml i'm rhieni pan oeddwn i'n blentyn oedd 'pam'? Fel un oedd ddim yn tueddu i dderbyn yr ateb cyntaf i gwestiynau, gallaf ddychmygu fy mod wedi achosi rhwystredigaeth i dad a mam lawer gwaith! Ond fel oedolion, rydym yn sylweddoli mai trwy ofyn pam y mae plant o bob oed yn dod i ddeall mwy am y byd o'u cwmpas. Mae'r cwestiwn pam yn codi'n aml wrth i ni ddod at y Beibl – gan awduron yr amrywiol lyfrau a'r darllenwyr. Ac os ydych erioed wedi gofyn y cwestiwn pam fod hyn a hyn wedi cael ei gynnwys, mae un awdur dynol wedi rhoi ateb i ni. Wrth i ni droi at ein darlleniad ar y cyd heddiw, gwelwn fod Ioan yn dweud yn blaen tua diwedd ei Efengyl pam y mae wedi mynd i'r fath drafferth i gofnodi'r hanesion am fywyd a gweindogaeth Iesu o Nasareth. Mae'n pwysleisio fod llawer mwy y gallai fod wedi ei gynnwys wrth ysgrifennu, ond dewisodd yr hyn sydd gennym yn ein Testament Newydd i bwrpas penodol. Nid yw'n cyflwyno Iesu i'w ddarllenwyr gan ei fod yn ddyn diddorol yn unig, er bod y diddordeb ynddo yn parhau filoedd o flynyddoedd wedi iddo droedio ar y ddaear. Na, prif bwrpas Ioan oedd cofnodi'r arwyddion pwysig am Iesu fel Duw a dyn er mwyn i'w ddarllenwyr (ym mhob oes) gael bywyd trwy gredu ynddo. (Ioan 20:31) Ac wrth gwrs mae Ioan hefyd wedi egluro fod y bywyd hwn yn berthynas fywiol a chariadus lle mae'r crediniwr yn adnabod Iesu drosto'i hun. (Ioan 17:3)

Fyddwch chi'n ystyried hynny wrth ddarllen eich Beibl? Ydych chi'n gweddi'o cyn mynd i wasanaeth yn y capel y bydd Duw yn siarad yn uniongyrchol i mewn i'ch bywydau wrth i chi wrando ar Air Duw yn cael ei ddarllen a'i bregethu? Oherwydd dyna'r darlun o fywyd i'r Cristion a gawn yn y Beibl. Gan fod Crist wedi codi o'r bedd, mae'n fyw yn awr, ac yn galw pobl o bob math i ddod ato, i ymddiried ynddo, a thrwy hynny i dderbyn maddeuant pechodau a bywyd newydd na fydd diwedd arno.

Beth am i ni gymryd Ioan ar ei air felly, a mynd ati i ddarllen trwy Efengyl Ioan gan holi'n hunain, ydw i wir yn credu mai Iesu yw'r Meseia, Mab Duw? Ac ydw i wedi ymddiried ynddo o ddifri trwy ildio fy hun iddo a throi cefn ar fy hen fywyd hunan-ganolog?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 29^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro ar Daith** am 6.00 – y tro hwn yng Nghefn Berain. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Gwion yn pregethu.
- Mawrth – 1^{af} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Mercher – 2^{il} ➤ **Sasiwn Chwiorydd y Gogledd** yng Nghapel Bethania, Rhuthun gyda'r Parch. Aneurin Owen yn annerch am 2.00 a Mr Wynford Ellis Owen am 5.30. Darperir paned o de yn y Ffestri rhwng y ddau gyfarfod – croeso i chi ddod â phecyn bwyd hefo chi.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **CIC + (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion)** ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- **C.I.C. (Clwb Ieuenctid Cristnogol)** ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- **Darlithoedd DAWN Cymru** – lleoliad i'w gadarnhau.
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.
- **Keswick – Llandudno: Wythnos y Beibl** 'Overflowing Grace' gyda John Risbridger yn y Lighthouse Community, Ffordd y Gogarth, Llandudno LL30 2EJ. **Cyfarfod Cymraeg** nos Wener (4^{ydd}) am 7.30 gyda'r Parch. Ddr Rhodri Glyn yn pregethu. Cyfarfodydd eraill bore Mercher, lau a Gwener am 10.30 y bore a nos Fawrth, Mercher a lau am 7.30 yr hwyr. Gwneir casgliad.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Ar ddechrau'r oedfa, fe fydd aelodau Capel Cefn Meiriadog yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 6^{ed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 6^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 2^{il} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones (870656) **HEDDIW (29^{ain})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 6^{ed} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Henllan a Groes

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 6^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 6^{ed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.

Manylion Cyswilt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

2 Brenhinoedd 4:1-7 (BCND tud.340 / BCN tud.311)